



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff
WMGN09 Metel

Awdur:	Fiona Wheatley
Cymeradwywyd gan:	Fiona Abbott
Dyddiad yr Adolygiad:	09/11/2018

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN09	
Metel	
Lleoliad Cynhyrchu	Pob ardal
EWC	20-01-40
Math	Gwastraff a reolir nad yw'n beryglus
Dull Gwaredu	Didoli i'w ailgylchu
Math o Fin/Sach	Biniau olwyn 240l allanol / sach glir

Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau cyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddioli a'i waredu drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai mai dyma'r dewis olaf.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddioli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddioli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastig, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Yn ôl y rheoliadau, rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr, ar wahân er mwyn sicrhau ansawdd uchel y deunydd wedi'i ailgylchu.

Er nad yw'r gwastraff hwn yn cael ei ystyried yn beryglus, mae'n ofyniad dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus, ein bod yn didoli gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei roi yn y dosbarth cywir. Gall cael gwared ar wastraff peryglus yn y modd anghywir, drwy'r ffrwd gwastraff dinesig cyffredinol, arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Mae gwastraff metel yn addas iawn i'w ailgylchu; mae'r broses yn arbed ynni ac mae dulliau cynhyrchu sy'n defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn gostwng allyriadau CO₂. Er enghraifft, gellir arbed 95% o ynni gydag alwminiwm, 85% gyda chopr, 60% gyda phlwm a 60-75% gyda dur.

Eitemau

Bydd ailgylchu metel yn cynnwys eitemau megis:

- Silffoedd metel
- Fframiau celfi
- Standiau metel
- Alldoriadau glân o weithdai

Ni ddylid rhoi gwastraff metel yn y biniau ailgylchu pedair/dwy adran mewnol, nac yn y biniau ailgylchu allanol neu'r biniau ar gyfer deunyddiau na ellir eu hailgylchu. Os yw cyfansoddiad deunydd yn anhysbys, neu os yw wedi'i halogi, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd (estates-waste@abertawe.ac.uk) am arweiniad a manylion pellach.

Cyfarwyddiadau Gwaredu

Mae sgip metel allanol ar Gampws Parc Singleton lle gellir rhoi pob math o wastraff metel. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi unrhyw fetel wedi'i halogi yn y sgip. Darllenwch nodyn WMGN31 - Naddion am arweiniad ar gael gwared ar fetel halogedig.



Ffigwr 1 - Sgip 35 llathen Prifysgol Abertawe ar gyfer metel

I drefnu i ddarnau mawr o fetel gael eu casglu ar Gampws Parc Singleton a Champws y Bae, cyflwynwch archeb waith drwy borth [Desg Gymorth](#) y Brifysgol. Caiff y gwastraff ei gasglu o fewn pum niwrnod gwaith i gyflwyno'r archeb. Os hoffech ddod â gwastraff metel yn uniongyrchol i'r sgip ar Gampws Singleton, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk yn gyntaf i drefnu mynediad.


Costau Gwaredu

Mae'r gost waredu wedi'i chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, does dim cost uniongyrchol i unigolion/Cyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Serch hynny, gall unigolion leihau costau a chyfrannu at darged y Brifysgol i gyflawni cyfradd o 63% o droi gwastraff yn ynni, neu ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi, drwy beidio â defnyddio'r ffrwd wastraff gyffredinol os nad oes gwir angen.

Labelu

Gweler y templed

Am arweiniad pellach, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk



scrap metal